Ysgol Pen Barras
Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

# Ffermio

**Yr hanner tymor yma, 'rydym am ofyn i chi gyflawni gweithgareddau amrywiol yn eich amser eich hun. Y gofynion gwaith cartref yw:**

1. Rhaid i chi gyflawni o leiaf un dasg o bob rhestr, felly mae'n rhaid cyflawni tasg iaith, tasg rhifedd a thasg greadigol erbyn diwedd y tymor.
2. Mae croeso mawr i chi gyflawni mwy nag un, bydd gwobr arbennig i bob plentyn sy'n llwyddo i gyflawni bob tasg iaith a rhifedd!
3. 'Rydym yn argymell eich bod yn cyflawni'r tasgau bob wythnos, gan y bydd hi'n anodd i chi wneud bob dim yn yr wythnos olaf.
4. Mae croeso i chi fenthyg adnoddau (papur, printio eitemau, paent dyfrlliw) o'r ysgol er mwyn eich helpu i gyflawni'r tasgau.
5. **Dewch a'r tasgau creadigol i'r ysgol ar ddydd Iau, 21ain o Fai yn unig, gan fod y tasgau yma yn rhan o'n cystadlaethau diwrnod Sioe Frenhinol.**

**Byddwn yn cynnal twrnamaint TT Rock ar ddiwedd y tymor, felly cofiwch i dreulio amser yn ymarfer TT Rock adref gymaint a gallech chi.**

**Byddwn yn darllen yn rheolaidd yn y dosbarth bob wythnos, cofiwch i ddal ati i ddarllen eich nofelau personol adref hefyd.**

| <u>Tasgau iaith:</u><br><u>(Cymraeg neu Saesneg)</u> | <u>Tasgau rhifedd:</u> | **Tasgau creadigol :**<br>***(Erbyn 21.05.26 yn unig)*** |
|---|---|---|
| **Creu chwilair geirfa amaethyddol.**<br>- Rhaid cael o rhwng 10 - 15 gair amaethyddol. (Geiriau ffermio)<br>- Cyflawnwch y dasg ar bapur A4, ar raglen ar-lein neu yn eich llyfr Gwaith Cartref. | **Prisio trip i'r Sioe Frenhinol.**<br>- Dychmygwch eich bod yn mynd i'r sioe Frenhinol, un ai i ddangos anifail neu i fynd am wyliau.<br>- Ymchwiliwch i gostau teithio, llety ac adloniant y trip.<br>Faint fydd yr holl beth yn costio? | **Coginio ac addurno cacen ar y thema 'Ffermio'.**<br>Rhaid coginio a pharatoi'r gacen adref.<br>Cofiwch i addurno'r gacen yn ofalus, byddwch yn unigryw a chreadigol! |
| **Ysgrifennu rap neu gân am anifeiliaid y fferm**<br>- Beth am ysgrifennu darn o bersbectif yr anifeiliaid, neu o bersbectif y ffarmwr?<br>- Cofiwch i ddefnyddio'r odliadur arlein am gymorth odli! | **Lluniwch gynllun fferm o bersbectif aderyn (birds eye view)**<br>- Defnyddiwch bapur A4 neu A3. Rhaid cynnwys caeau gydag arwynebedd o 20cm2 , 15cm2 a 24cm2<br>- Cofiwch i gynnwys siediau addas, a labelu eich diagram. | **Darlun 2D o anifail**<br>- Cewch ddefnyddio ystod o ddeunyddiau ar gyfer eich darlun, eich dewis chi yn llwyr yw hyn.<br>- Mae croeso i chi ddefnyddio papur o unrhyw faint, neu gynfas arbennig os hoffech chi. |
| **Ysgrifennwch gerdd dan y teitl 'Cysgod'**<br>- Mae'r gystadleuaeth yma yn rhan o gystadleuaeth Barddas hefyd, gyda'r enillydd yn ennill cadair fach a £25.<br>- Defnyddiwch eirfa ddiddorol - beth am ddefnyddio thesawrws?<br>- Ceisiwch greu darlun byw yn meddwl y darllenydd.<br>- Gall fod am gysgod ar fferm neu am bwnc arall | **<u>Ysgrifennwch 4 problem eiriol mathemateg ar gyfer eich ffrindiau.</u>**<br>Rhaid ysgrifennu cwestiynau adio, tynnu, lluosi a rhannu.<br>Cofiwch i nodi'r atebion hefyd! | **Ffotograffiaeth - Thema: Anifeiliaid**<br>- Rhaid cyflwyno 6 ffotograff. Mae croeso i chi ddewis unrhyw anifail, nid oes rhaid iddo fod yn anifail fferm.<br>- Mae croeso i chi dynnu lluniau du a gwyn neu liw.<br>- Cewch argraffu eich lluniau yn yr ysgol os hoffech. |

## Homework tasks - Farming theme

**This half term, we want to ask you to carry out various activities in your own time. The homework requirements are:**

1. You must complete at least one task from each list, so a language task, a numeracy task and a creative task must be completed by the end of the term.
2. You are very welcome to complete more than one, there will be a special prize for each child who manages to complete each language and numeracy task!
3. We recommend that you carry out the tasks every week, as it will be difficult for you to do everything in the last week.
4. You are welcome to borrow resources (paper, printed items, watercolor paints) from the school to help you.
5. Bring the creative tasks to school on Thursday 21st May only, as these tasks are part of our
6. Royal Show day competitions.

**We will be holding a TT Rock tournament at the end of the season, so remember to spend time practising TT Rock at home as much as you can.**

**We will read regularly in class every week, remember to keep reading your own books at home too.**

| <u>**Language tasks:**</u><br><u>**(Cymraeg neu Saesneg)**</u> | <u>**Numeracy tasks:**</u><br><u>**((InWelsh please)**</u> | **Creative tasks :**<br>***(By 21.05.24 only)*** |
|---|---|---|
| **Create a farming word search.**<br>- There must be between 10 - 15 agricultural words. (Farming words)<br>- Complete the task on A4 paper, online, or in your Homework book. | **Pricing a trip to the Royal Show.**<br>- Imagine you are going to the Royal Welsh show, either to show an animal or to go on holiday.<br>- Research the costs of travel, accommodation and entertainment for the trip.<br>- How much will the whole thing cost? | **Cooking and decorating a cake. Theme: 'Farming'**<br>- The cake must be cooked and prepared at home.<br>- Remember to decorate the cake carefully, be unique and creative! |
| **Write a rap or song about farm animals**<br>- Why not write a piece from the animals' perspective, or from the farmer's perspective?<br>- Remember to use the online rhyme book for rhyming help! | **Draw a farm plan from a bird's eye view**<br>- Use A4 or A3 paper.<br>Fields with an area of 20cm$^2$, 15cm$^2$ and 24cm$^2$ must be included<br>- Remember to include suitable sheds, and label your diagram. | **2D drawing of an animal**<br>- You may use a range of materials for your drawing, this is entirely your choice.<br>- You are welcome to use paper of any size, or a special canvas if you like. |
| **Write poem under the title 'Shelter'**<br>- This is part of the Barddas Competition too, where the winner receives a chair and £25.<br>- It must be in Welsh.<br>- Use interesting vocabulary - use a thesaurus.<br>- Create a vivid image of what you're trying to portray for the reader.<br>- 'Shelter' can be about farming or another topic. | **Write 4 maths verbal problems for your friends.**<br>- Addition, subtraction, multiplication and division questions must be written.<br>- Remember to include the answers! | **Photography - Theme: Animals**<br>- 6 photographs must be submitted. Feel free to choose any animal, it doesn't have to be a farm animal.<br>- You are welcome to take black and white or colour photos.<br>- You may print your photos at school if you wish. |